



Adnodd 8 – Senarios Canlyniadau
Cerdyn Gwybodaeth a Chyfraith ar gyfer Athrawon

Senario 1 Torrodd Jack y gyfraith drwy ddefnyddio cyfrinair ei ffrind i brynu bwledi a chetris ar gyfer gêm.

Trosedd

Mynediad heb awdurdod gyda'r bwriad o gyflawni troseddau pellach neu hwyluso'r gwaith o gomisiynu troseddau pellach. Adran 2 o Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron (1990)

Math o dreial a chosb

Crynodeb: uchafswm o 12 mis yn y carchar a/neu ddirwy.

Ditiad: uchafswm o 5 mlynedd yn y carchar a/neu ddirwy neu'r ddau.

Sut effeithiwyd ar y dioddefwr?

Ni roddodd y dioddefwr ganiatâd i brynu bwledi a chetris. Felly byddai'r dioddefwr wedi bod ar ei golled yn ariannol.

Gallai'r dioddefwr fod wedi teimlo'n ddig/yn wyllt am hyn ac wedi colli ymddiriedaeth yn ei ffrind.

Gallai'r person dan amheuaeth/ffrind fod wedi cael cyfrinair y dioddefwr drwy edrych dros ei (h)ysgwydd ('shoulder surfing'). Mae hyn yn golygu y gallai fod wedi gweld y dioddefwr yn mewnbynnu'r cyfrinair wrth chwarae'r gêm gydag ef/hi ac yna ei ddefnyddio yn nes ymlaen heb ei ganiatâd/chaniatâd.

Beth allai'r dioddefwr ei wneud i ddiogelu ei hun?

- Peidio byth â rhannu'r cyfrinair ag eraill
- Newid y cyfrinair
- Dewis cyfrinair sy'n anodd ei ddyfalu.
- Sicrhau nad oes heb yn gwylio wrth fewnbynnu cyfrinair
- Sicrhau bod y ddyfais yn ddiogel
- Rhoi gwybod am bob achos o seiberdroseddu





Senario 2 Torrodd Jack y gyfraith drwy fygwth pobl oni bai eu bod yn talu arian.

Trosedd

Blacmel. Deddf Dwyn (1968)

Math o dreial a chosb

Ditiad: uchafswm o 14 blynedd yn y carchar.

Sut effeithiwyd ar y dioddefwr?

Byddai'r dioddefwr wedi dioddef galwadau diangen. Gallent fod wedi bod ar ffurf gofyn am arian parod neu / Bitcoin ('cryptocurrency') yn gyfnewid am wybodaeth sensitif megis data cwsmer (ar gyfer busnesau), dogfennau, lluniau, negeseuon e-bost/fideos personol.

Beth allai'r dioddefwr ei wneud i ddiogelu ei hun?

- Defnyddio cyfrinair cryf i ddiogelu data
- Gwneud copïau wrth gefn o'r data yn rheolaidd
- Cadw copi wrth gefn ar wahân i'r cyfrifiadur
- Peidio byth ag agor unrhyw beth o ffynonellau dieithr
- Peidio byth â thalu'r galwadau diangen
- Cofio diweddarau systemau gweithredu a meddalwedd
- Rhoi gwybod am bob achos o seiberdroseddu
- Rhoi gwybod i'r heddlu am achosion o flacmel bob amser





Senario 3 Torrodd Jack y gyfraith drwy analluogi gwefan ei ysgol.

Gelwir hyn yn ymosodiad DDOS (Ymosodiad Atal Gwasanaeth Gwasgaredig).

Trosedd

Gweithrediadau heb awdurdod gyda'r bwriad o amharu ar weithrediad cyfrifiadur, neu ymddwyn yn fyrbwyll ynglŷn ag amharu ar weithrediad cyfrifiadur. Adran 3 o Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron (1990)

Math o dreial a chosb

Crynodeb: Uchafswm o 12 mis yn y carchar a/neu ddirwy.

Ditiad: Uchafswm o 10 mlynedd yn y carchar a/neu ddirwy anghyfyngedig.

Sut effeithiwyd ar y dioddefwr?

Ni fyddai dysgwyr wedi gallu cyflwyno darnau o waith cwrs/gwaith cartref.

Ni fyddai athrawon wedi gallu marcio gwaith cwrs na chael mynediad at unrhyw beth arall ar wefan yr ysgol.

Ni fyddai gwybodaeth bwysig ar gael i rieni/gofalwyr neu bobl eraill.

Beth allai'r dioddefw(y)r ei wneud i ddiogelu ei hun?

- Sicrhewch eich bod yn cadw copiâu wrth gefn o wybodaeth pwysig. Mae'n bwysig i ddysgwyr hefyd, er enghraifft, gwaith cartref, lluniau teulu.
- Rhowch wybod am seiberdroseddu bob amser.
- Mae arbenigwyr seibr-ddiolegwch yn darllen y newyddion tech i glywed am fygythaidau mawr newydd.

